

Galluogi pobl i arwain

Rydym eisiau i chi ddangos bod y bobl rydych yn cydweithio â nhw'n ymwneud yn bwrpasol â datblygiad, dyluniad a chyflwyniad eich prosiect.

Beth a olygwn wrth 'wedi'i arwain gan bobl'?

- Mae 'wedi'i arwain gan bobl' yn golygu cynnwys y bobl a fydd yn elwa wrth ddylunio a chyflwyno prosiectau.
- Pan ddywedwn 'pobl', rydym yn golygu'r bobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau, eu rhwydweithiau (fel teulu, ffrindiau, gofalwyr) a'r gymuned ehangach y mae'ch cymuned yn gweithio ynddi.

Gall cynnwys olygu amrywiaeth eang o ddulliau, o'r sgysiau bob dydd rydych yn eu cael gyda phobl - y rhai sy'n elwa o'r gwasanaethau rydych yn eu cyflwyno yn ogystal â phobl yn y gymuned ehangach a allai elwa o'ch prosiect newydd - i gynnwys pobl yn weithredol wrth gynllunio a chyflwyno'ch prosiect. Y peth allweddol yw bod pobl yn cael eu cynnwys mewn ffordd bwrpasol a byddwn yn gofyn i chi ddangos sut mae cynnwys pobl wedi dylanwadu ar y cynlluniau ar gyfer eich prosiect, yn ogystal â'u cyfranogiad parhaus yn y cyflwyniad os caiff y prosiect ei ariannu.

Pam ddylem gynnwys pobl?

- Rydym yn credu y dylai pobl arwain ar wella'u bywydau a chymunedau.
- Mae cynnwys pobl yn rhoi'r hyder iddynt ddysgu sgiliau newydd ac adeiladu hyder hefyd.
- Wedyn, gall prosiectau gael eu siapio'n unol â gofynion a safbwyntiau'r bobl a fydd yn cymryd rhan ac yn elwa ohonynt.
- Mae cyfle gwell y bydd y prosiect yn llwyddiannus ac y gellir monitro'r effeithiolrwydd yn well, gan ymdrin ag unrhyw broblemau ac ymateb i adborth.

Pam efallai na fydd pobl eisiau cymryd rhan?

- Mae pobl yn brysur. Mae ganddynt fywydau, teuluoedd a swyddi ac mae'n bosib nad oes ganddynt yr amser i gymryd rhan wrth ddylunio, cyflwyno neu adolygu prosiectau.
- Mae'n bosib na fydd pobl yn teimlo'n ddigon cyfforddus i ddweud wrthyhych beth maen nhw'n ei feddwl pan fyddwch yn gofyn yn uniongyrchol iddynt. Mae'n bosib na fydd rhai'n barod i ddweud eu dweud o flaen pobl eraill.
- Mae'n bosib eu bod wedi cymryd rhan mewn prosiectau o'r blaen a theimlo na gwerthfawrogwyd eu barn a'u cyfraniad, gan olygu, felly, na fyddant eisiau cymryd rhan eto.

Gall cyfranogiad arwynebol wneud mwy o niwed na pheidio â chynnwys pobl o gwbl. Felly, mae'n bwysig dangos pobl y gwrandawyd ar eu barn ac i roi gwybod iddynt ba newidiadau a wnaed i'ch cynlluniau o ganlyniad i hyn. Os na ellir gwneud newidiadau, dylech gymryd yr amser i esbonio pam.

Sut beth yw cynnwys pobl?

Nid oes unrhyw ddull unigol sy'n 'addas i bawb' at gynnwys pobl wrth ddylunio a chyflwyno prosiectau. Er hynny, dylid cynnwys pobl mewn ffordd bwrpasol. Bydd hwn yn edrych yn wahanol ar gyfer prosiectau gwahanol. Mae'n bwysig darparu amgylchedd y mae pobl yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel i gymryd rhan ynddo.

- Gallai cynnwys pobl ymwneud â chreu perthnasoedd gyda phobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau rydych yn eu darparu ar hyn o bryd, cnocio ar ddrysau yn y gymuned, gwneud arolygon, cymryd rhan mewn grwpiau ffocws/pwyllgorau - dyma rai enghreifftiau'n unig.
- Mae angen i chi feddwl y tu hwnt i'r grŵp arferol o bobl sy'n fodlon cymryd rhan. Ceisiwch feddwl am ddulliau gwahanol o gynnwys pobl nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn prosiectau neu roi eu barn a safbwyntiau.
- Mae hyblygrwydd a chreadigrwydd yn allweddol - meddyliwch y tu hwnt i arolygon a ffurflenni adborth.
- Byddwch yn barod i herio'ch tybiaethau ar sgiliau, galluoedd a phrofiad pobl.
- Nid oes angen cyfranogiad cyson gan yr un bobl bob tro. Mae'n bwysig cynnwys pobl wahanol trwy gydol dylunio, cyflwyno ac adolygu'ch prosiect.
- Byddwch yn dryloyw gyda phobl os byddwch yn ymgynghori â nifer o grwpiau o bobl ynghylch a fyddant yn cael y cyfle i newid sut caiff y prosiect ei ddylunio a'i gyflwyno.

Pethau i chi eu hystyried wrth gydweithio â grwpiau penodol o bobl.

- Oes angen i chi ddarparu deunyddiau mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol? Er enghraifft, wrth ennyn diddordeb pobl ifanc, efallai y byddwch eisiau bod yn greadigol a defnyddio cyfryngau amgen (e.e. fideo, cyfryngau cymdeithasol, y celfyddydau)
- Yng Nghymru, rydym yn disgwyl i chi gynnwys ac ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ddylunio a chyflwyno prosiectau.
- Dylid ystyried materion diwylliannol, er enghraifft mae rhai grwpiau'n gwahanu'r rhywiau wrth gyflwyno prosiectau. Neu efallai y bydd angen i chi fod yn ymwybodol o wyliau arbennig wrth ennyn diddordeb grwpiau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau crefyddol.
- Heriwch eich tybiaethau o ran gallu a diddordeb rhywun i gymryd rhan.
- Gallai cynnwys grwpiau penodol mewn ffordd bwrpasol olygu bod angen i chi ofyn i bobl sydd â phrofiad o weithio gyda'r gymuned benodol honno helpu. Er enghraifft, gallai cynnwys plant ifanc alw am sgiliau datblygu a hwyluso deunyddiau creadigol i fanteisio i'r eithaf ar y sesiwn.

Seiliedig ar gryfderau

Rydym eisiau i bobl ddefnyddio ein hariannu i gefnogi pobl a chymunedau i adeiladu ar yr wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd ganddynt yn barod i wneud y newidiadau maen nhw eu heisiau. Gallai cymuned fod yn gymuned ddaearyddol neu gymuned buddiant.

Beth a olygwn wrth 'Seiliedig ar gryfderau'?

- Rydym eisiau annog pobl a chymunedau i feddwl am y cryfderau sydd ganddynt, a sut y gallant ddefnyddio a datblygu'r cryfderau hynny i wneud newidiadau drostynt eu hunain a'u cymuned.
- Mae'n canolbwyntio ar y sgiliau, asedau ac egni y gall pobl alw arnynt yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn nad oes ganddynt.
- Mae pob unigolyn mewn cymuned yn bwysig ac mae pob unigolyn yn ychwanegu gwerth. Mae gan bawb rywbeth i'w gynnig gan gynnwys doniau, galluoedd, perthnasoedd, sgiliau, gwybodaeth a hyd yn oed brwdfrydedd.
- Rydym am i chi ddangos y byddwch chi'n defnyddio ein grant i wella'r hyn sydd eisoes yn gryf yn hytrach na 'chywiro'r hyn sydd o'i le'.
- Mae'n ymwneud â chymuned sy'n ymchwilio i'r hyn maen nhw'n frwd drosto er mwyn cydweithio i newid, datblygu neu gynnal. Trwy gael yr offer a chyfleoedd priodol, gall grwpiau bach o bobl newid y pethau maen nhw'n credu y mae angen eu newid yn well na neb arall.

Beth yw nodweddion allweddol 'seiliedig ar gryfderau'?

- Adnabod, adeiladu ar a symbylu cryfderau ac adnoddau personol a lleol - pobl, amser, sgiliau, profiad, gwybodaeth - a mapio galluoedd a sgiliau unigolion, cymdeithasau a mudiadau.
- Adeiladu grwpiau a rhwydweithiau cefnogol, datblygu cyfleoedd ennyn diddordeb pwrpasol.
- Adeiladu ar a defnyddio gwybodaeth a phrofiad lleol i ddylanwadu ar newid, cynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau ac adeiladu gweledigaeth a chynllun cymunedol i helpu diffinio blaenoriaethau lleol.
- Canolbwyntio ar hwyluso, galluogi a grymuso yn hytrach na chyflwyno prosiectau'n unig.
- Cysylltu gweithgareddau, buddsoddiadau ac adnoddau o'r tu allan i'r gymuned â'r cryfderau presennol sydd wedi cael eu hadnabod.

Sut gallai hyn edrych i chi?

- Mae'r ffaith yr ydych yn ystyried cysylltu â ni ynglŷn â syniad am brosiect yn gryfder ynddo'i hun - dymuniad a brwdfrydedd i rywbeth newid.
- Arbenigwyr trwy brofiad! Mae'n bosib bod pobl wedi profi heriau'n flaenorol y mae'ch syniad prosiect yn bwriadu mynd i'r afael â nhw (er enghraifft: dyled, unigedd, cam-drin alcohol). Mae cynnwys y sawl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r prosiect yn enghraifft o adeiladu ar gryfderau.
- Gallech chi gwblhau arolwg cymunedol er mwyn adnabod cryfderau/profiad unigol sydd eisoes yn bodoli. Gallai hyn gynnwys pobl sydd â sgiliau busnes, y rhai sydd â phrofiad o drefnu gweithgareddau, y rhai sydd â gwybodaeth am gydweithio â grwpiau penodol o bobl.
- Gallai gynnwys cwblhau map cymunedol i adnabod y mudiadau sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal, a'r ffordd orau o gysylltu a rhwydweithio â nhw.

Cysylltiedig



Rydym eisiau i'n hymgeiswyr a phrosiectau feddu ar ddealltwriaeth dda o weithgareddau a gwasanaethau eraill yn eu cymuned a medru dangos sut y bydd eu prosiect yn cydweddu â'r rhain.

Beth a olygwn wrth 'cysylltiedig'?

- Mae angen i chi feddu ar ddealltwriaeth dda o'r gweithgareddau a gwasanaethau yn eich cymuned er mwyn i chi ddangos sut mae eich syniad, gwaith a phrosiect yn gweithio gyda'r hyn sydd eisoes yn bodoli ac yn cydweddu ag ef.
- Mae 'cysylltiedig' yn golygu eich bod yn deall ac yn defnyddio'r hyn rydych wedi ei ddysgu gan gael eich arwain gan bobl a bod yn seiliedig ar gryfderau.
- Gallwch feddwl am fod yn gysylltiedig ar ddwy lefel:
 - i. Mae bod yn gysylltiedig yn golygu eich bod yn gwybod beth mae'r bobl rydych yn cydweithio â nhw ei eisiau ac yn ei ddefnyddio. Os ydych wedi'ch arwain gan bobl, bydd gennych yr wybodaeth hon. Pan fydd grwpiau'n gysylltiedig, maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod yr hyn y maent eisiau ei wneud yn briodol ac yn ddichonol.
 - ii. Mae bod yn gysylltiedig yn golygu eich bod yn gwybod y gymuned rydych yn gweithio ynddi. Rydych yn gwybod pa wasanaethau sy'n bodoli, pa gyfleoedd sy'n bodoli ac mae gennych gynllun ynglŷn â sut y gallwch adeiladu ar y cyfleoedd hyn.
- Fel arfer ni allwch greu cysylltiadau hyd nes y byddwch yn gwybod beth yw eich cryfderau.

Sut mae bod yn gysylltiedig yn edrych?

- Nid oes un ffordd nac un dull penodol.
- Gall fod yn gysylltiadau a gweithgareddau anffurfiol fel cwrdd â phobl leol, aelodaeth pwyllgor rheoli neu grŵp llywio.
- Gall fod yn cydweithio â mudiadau eraill trwy redeg gweithgareddau ar y cyd, darparu hyfforddiant neu arweiniad i eraill, i ddefnyddio adeilad, cludiant neu aelodaeth mudiad arall.
- Rydym wedi gweld weithiau bod partneriaeth gyda grwpiau neu wasanaethau statudol eraill yn hanfodol i greu prosiect cryf a fydd yn cyrraedd pobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf.
- Gall fod yn fwy ffurfiol gyda chytundeb partneriaeth neu gyflwyno gwasanaethau trwy gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes angen partneriaeth ffurfiol arnom ar gyfer y rhaglen Pawb a'i Le.
- Nid ydym yn chwilio am lefel benodol o gysylltiad ond am gysylltiadau sy'n gwneud synnwyr ar gyfer eich prosiect ac y gallwch eu hesbonio i ni.

Beth os tybiwch nad oes unrhyw gysylltiadau?

- Ar sail ein profiad, mae pob grŵp yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd ac nid oes unrhyw grŵp sy'n gweithio ar ei ben ei hun. Meddyliwch am y gwaith a wnewch a'r cysylltiadau sydd gennych yn barod.
- Rydym yn gwybod bod angen i bobl a grwpiau weithio'n fwy annibynnol weithiau. Er enghraifft, wrth weithio gyda materion sensitif fel pobl sydd â chaethineb, cyn-droseddwyd, tueddfryd rhywiol gwahanol, trais domestig. Yn yr achosion hyn, gallai fod angen gweithio mewn ffordd lai integredig o fewn y gymuned ehangach. Fodd bynnag, gallech chi ddangos bod gennych gysylltiadau ar sail fwy rhanbarthol/cenedlaethol, gan gydweithio â mudiadau tebyg eraill i rannu dysgu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eich gwaith.

Pam ydych chi'n gofyn i ni wneud hyn?

- Mae angen i chi ddangos i ni eich bod yn gwybod y gymuned rydych yn gweithio ynddi a pham mae'ch prosiect yn gwneud synnwyr i chi a'r gymuned. Byddem yn disgwyl i chi wybod pa wasanaethau tebyg sy'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn i'n hariannu ychwanegu gwerth, heb ddyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu.
- Rydym eisiau gwybod eich bod wedi gwneud penderfyniadau gwybodus am eich syniad, eich bod wedi ystyried y gymuned a'r bobl wrth i chi ddatblygu'r prosiect. Trwy wneud hwn bydd mwy o gyfle y bydd yr hyn y bwriadwch ei wneud yn cael effaith gadarnhaol ac y bydd yn llwyddiannus.